

Adroddiad Blynyddol y Cyngor Optegol Cyffredinol i Gomisiynydd y Gymraeg 2023-24

Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y gwnaethom sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae'n amlinellu ein gwaith i roi Safonau'r Gymraeg ar waith, a ddaeth i rym ar gyfer y Cyngor Optegol Cyffredinol ar 6 Rhagfyr 2023. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac yn dangos ein hymrwymiad i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg.

Mae ein [hadroddiadau blynyddol blaenorol](#) ar y Gymraeg ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cefndir

Y Cyngor Optegol Cyffredinol yw rheoleiddiwr y sector optegol ledled y DU. Mae gennym bedair swyddogaeth graidd:

- Gosod safonau ar gyfer perfformiad ac ymddygiad y rheini sydd wedi cofrestru â ni.
- Cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru â ni.
- Cynnal cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu hyfforddi i fod yn optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrrff corfforaethol sy'n addas i barhau i weithredu fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi.
- Ymchwilio a gweithredu lle gallai fod amhariad ar addasrwydd y rhai sydd wedi cofrestru i ymarfer, hyfforddi neu weithredu.

Mae'r rheini sydd wedi cofrestru â ni'n cynnwys optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr optometreg ac yn optegwyr cyflenwi. Fel rhan o'n gwaith o gymeradwyo cymwysterau, rydym hefyd yn gweithio gyda nifer o sefydliadau lle rydym wedi cymeradwyo eu cymwysterau i optometryddion, optegwyr cyflenwi a/neu gymwysterau arbenigol ar ôl cofrestru. Ar hyn o bryd, Prifysgol Caerdydd, sy'n cynnig cymwysterau optometreg a rhagnodi annibynnol, yw'r unig sefydliad sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Optegol Cyffredinol yng Nghymru.

Crëwyd Safonau'r Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Creodd y ddeddfwriaeth hon swydd Comisiynydd y Gymraeg, sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Safonau'n hybu a hwyluso'r Gymraeg ac yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae Safonau'r Gymraeg yn amlinellu sut rydym yn sicrhau bod ein gwaith yn hygyrch i siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys y cyhoedd a'r rhai sydd wedi cofrestru â ni, ac mae gofyniad statudol i fodloni'r Safonau. Mae'n bosibl Comisiynydd y Gymraeg yn cael cwynion os na fyddwn yn llwyddo i gydymffurfio â'r Safonau, a gall fynd â ni i dribiwnlys, gosod sancsiynau arnom, ac fe allai roi dirwy o hyd at £5000 i'r Cyngor am bob elfen o ddiffyg cydymffurfio.

Fe wnaethom gynnal rhaglen waith cyn y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio, sef 6 Rhagfyr 2023, i sicrhau ein bod yn bodloni'r safonau newydd. Rydym nawr yn cynnal y prosesau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn bodloni ein gofynion o dan Safonau'r Gymraeg, gan ymdrechu i ragori arnynt lle bo modd, a lle'i bod yn gymesur gwneud hynny.

Ein Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) sy'n bennaf gyfrifol am fonitro lefel ein cydymffurfiaeth o ddydd i ddydd a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob maes cyfrifoldeb ar gyfer y Cyngor Optegol Cyffredinol. Mae cynrychiolaeth o bob un o'r pedair gwlad ddatganoledig ar ein Cyngor, gan gynnwys Cymru, ac mae'n cael ei oruchwylio gan ein cynrychiolydd presennol, Lisa Gerson.

Ein dull gweithredu

Mae'r Cyngor yn cynnal nifer o brosesau i sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, ei hwyluso a'i gefnogi yn ein gweithgarwch.

Mae'r holl weithwyr presennol wedi cael hyfforddiant ar hanes y Gymraeg a'i rôl yn niwylliant Cymru, yn ogystal â sut i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys drwy gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae pawb sy'n ymuno o'r newydd yn cael yr hyfforddiant hwn fel rhan o'r broses gynefino Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae gennym safle mewnwyd am y Gymraeg gydag adnoddau i weithwyr ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac opsiynau ar gyfer datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mae gwaith monitro parhaus yn digwydd i sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym yn cadw cyfieithiadau o ddogfennau ac yn cyfieithu unrhyw bolisiâu perthnasol pan fyddant yn cael eu diwygio. Mae'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cyfrannu'n rheolaidd at feysydd gwaith i sicrhau bod anghenion iaith Gymraeg yn cael eu hystyried ac mae'n rhoi cyngor ymgynghori ynghylch hyn drwy gydol y flwyddyn. Rydym hefyd wedi tynnu sylw at yr effeithiau ar y Gymraeg mewn adran yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran y Gwledydd Datganoledig. Mae hyn yn sicrhau nad ydym yn gwneud unrhyw benderfyniadau polisi heb ystyried sut y gallant effeithio ar y gwaith o hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn y Cyngor Optegol Cyffredinol ac yn ei holl weithrediadau.

Yn unol â'r Safonau mae'n rhaid inni ddarparu ein llwyfannau ar-lein yn Gymraeg. Fel un o'r systemau, mae prosiect gwednewid mawr yn mynd rhagddi ar MyGOC, a chaniatawyd eithriad i ni i'r dyddiad cau ar 6 Rhagfyr 2023 ar gyfer Safonau 19 ac 20 er mwyn i ni allu cwblhau'r gwaith hwn. Y dyddiad cau rydym wedi cytuno arno ar gyfer hyn yw 31 Rhagfyr 2024, ac, o'r herwydd, dydyn ni ddim yn rhoi sylw i hyn yn yr adroddiad hwn.

Safonau cyflenwi gwasanaeth

Cyn 6 Rhagfyr 2023, fe wnaethom ddiweddarau ein safonau ffonau i gynnwys opsiynau Cymraeg yn ogystal â rhai Saesneg. Mae gennym drefniadau ar waith i gefnogi cyfarfodydd yn Gymraeg ac mae holl weithwyr y Cyngor wedi cael eu briffio ar sut i drefnu i gynnal y cyfarfodydd hyn. Fodd bynnag, dydyn ni ddim wedi gorfod defnyddio'r prosesau hyn hyd yma.

Yn ogystal â chyfarfodydd, rydym yn barod i gynnal gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn Gymraeg, os gofynnir amdanynt, ac mae ein staff wedi cael eu hyfforddi ar sut i gyflawni'r trefniadau hyn. Rydym wedi canfod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd o ansawdd uchel sy'n gallu darparu cyfieithu ar y pryd deul lle bo angen. Ni chawsom unrhyw geisiadau i gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg yn 2023-24.

Rydym wedi cyfieithu dros 170 o ddogfennau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r holl ddogfennau newydd neu'r rhai sydd wedi'u diweddarau a ddarparwyd yn Gymraeg ers y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio wedi cael eu cynhyrchu i'r un safon ac wedi cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg. Byddem yn defnyddio'r gwasanaeth hwn i gyfieithu unrhyw ohebiaeth y byddem yn ei chael yn Gymraeg. Fodd bynnag, does neb wedi cysylltu â ni'n ysgrifenedig yn Gymraeg hyd yma.

Mae ein gwefan a'n canolfannau ymgynghori ar gael yn Gymraeg ac rydym wedi cyfieithu pob ffurflen ac unrhyw ddogfennau ar y wefan sy'n ymwneud â Chymru a/neu warchod y cyhoedd i'r Gymraeg. Rydym wedi dewis cyhoeddi rhai dogfennau yn Gymraeg nad ydynt yn ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg, fel ein polisi Ymddygiad Derbynol. Ein harfer safonol o ran cyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol yw cynhyrchu unrhyw negeseuon yn Gymraeg ac yn Saesneg os yw digwyddiad neu bwnc yn ymwneud yn benodol â Chymru, fel y gwelwyd yn Seminar Cymru'r Awdurdod Safonau Proffesiynol 2024, lle'r oeddem yn anfon negeseuon trydar dwyieithog (gweler isod).



Diweddarwyd ein helfennau hunaniaeth gorfforaethol a'n canllawiau ar eu defnyddio i gynnwys fersiynau Cymraeg a chyngor i staff ar sut i'w cynnwys. Rydym wedi cynnwys llinell yn ein holl lofnodion e-bost yn rhoi gwybod i bobl bod croeso iddynt gysylltu â ni yn Gymraeg (gweler yr enghraifft isod).

EDI Inbox

General Optical Council | 10 Old Bailey | London | EC4M 7NG

Switchboard: 020 7580 3898 Email: edi@optical.org Web: www.optical.org | Twitter: [@GOC_UK](https://twitter.com/GOC_UK)

At the General Optical Council we are responsible, forward thinking and principled. [Read our mission and values online.](#)

Charity overview, GENERAL OPTICAL COUNCIL - 1150137, Register of Charities - The Charity Commission

[Rydym yn hapus i ddelio ag ymholiadau yn y Gymraeg](#)

Dydym ni ddim wedi derbyn unrhyw gwynion ynghylch ein cyfrifoldebau mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, ond rydym yn rhoi cyfle i bobl gyflwyno [cwynion corfforaethol yn Gymraeg](#), os bydd unrhyw un yn dymuno mynegi pryder i ni.

Yn ogystal â'r adroddiad hwn, rydym hefyd yn cyfieithu ein hadroddiad a'n cyfrifon blynyddol, a'n hadroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant blynyddol i'r Gymraeg.

Safonau llunio polisi

Fel rhan o'n proses o lunio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, rydym yn asesu effeithiau posibl unrhyw benderfyniad polisi newydd neu ddiwygiedig ar y defnydd o'r Gymraeg. Pan fyddwn yn sgrinio am effeithiau ar y Gymraeg, mae'n ofynnol i'r staff sy'n cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ystyried a ddylid cyfieithu'r polisi neu unrhyw rannau sy'n ymwneud â'r broses i'r Gymraeg.

Wrth gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar bolisi, darperir yr Asesiad drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn i ni allu gofyn am farn rhanddeiliaid ar yr asesiad effaith, gan gynnwys unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a/neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r adborth a ddarperir yn yr ymgynghoriad cyn anfon fersiwn derfynol y cynigion polisi a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb at ein Cyngor i'w cymeradwyo.

Eleni, buom yn ymgynghori ar nifer o faterion polisi, yn ogystal â diwygio ein Safonau, a'n strategaeth ar gyfer 2025-2030. Yn ystod ein hymgynghoriad ar y strategaeth, cawsom adborth cadarnhaol gan Optometreg Cymru ar ddarparu'r ymgynghoriad yn Gymraeg:

“Mae Optometreg Cymru yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Optegol Cyffredinol am gyhoeddi strategaeth y Cyngor yn y Gymraeg. Mae hyn yn cefnogi'r rhai sydd wedi cofrestru â ni a chleifion i ddefnyddio'r Gymraeg yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnig dewis sy'n cael ei werthfawrogi.”

Wrth gyflwyno papurau i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys ein Tîm Uwch-Reoli a'r Cyngor, mae ein templed ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys adran ar effeithiau a risgiau. Yn yr adran hon, mae'n rhaid ystyried y goblygiadau i'r gwledydd datganoledig, gan gynnwys Cymru, ac i ystyried yr effaith o ran hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg.

Safonau gweithredol

Rhoddwyd gwybod i'r holl staff am yr opsiwn i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, ac rydym wedi creu set o gyfleoedd dysgu ar eu cyfer. Cefnogwyd y rheini sydd wedi dangos diddordeb mewn dysgu Cymraeg i fynd ati i wneud hynny; hyd yma mae dau weithiwr wedi cysylltu â ni ynghylch hyn ac wedi dechrau ar y cyrsiau dysgu Cymraeg a argymhellwyd iddynt.

Ar sail ein harolwg staff yn 2023, nid oes unrhyw un o'n gweithwyr wedi nodi bod ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg. Rydym wedi cynnwys cwestiwn am ddefnydd iaith yn ein ffurflen fonitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant safonol, sy'n cael ei dosbarthu ar draws y Cyngor. Ar ôl ei gwblhau, bydd y gwaith hwn yn ein galluogi i fonitro'r defnydd o'r Gymraeg ar bob lefel o'r Cyngor.

Mae Safonau'r Gymraeg yn mynnu ein bod yn asesu gofynion pob swydd o ran sgiliau Cymraeg. Rydym wedi diweddarau ein harferion a'n prosesau i sicrhau bod hyn yn digwydd. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, nid oedd angen sgiliau Cymraeg ar gyfer unrhyw un o'r swyddi a aseswyd, naill ai fel meini prawf dymunol neu hanfodol.

Casgliad

Ers 6 Rhagfyr 2023, rydym wedi bodloni gofynion ein hysbysiad cydymffurfio ac, mewn rhai achosion, wedi rhagori ar y rhain. Rydym yn ystyried Safonau'r Gymraeg, o safbwynt cydymffurfio, ac fel mater cydraddoldeb a chynhwysiant, a dyna pam mai'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn gweithio. Rydym yn bwriadu parhau i weithio fel hyn, gan ymgysylltu ag eraill yn y gofod rheoleiddio i rannu arferion gorau. Byddwn yn gweithio gyda'n gweithwyr cyflogedig, ein haelodau a'n gweithwyr i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.

Yn 2024-25 byddwn yn parhau i ystyried sut gallwn hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg a sicrhau nad ydym yn ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.